

CRYNODEB CYFARFOD

Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Hydref 6ed 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Gwenda Evans, (cadeiryddes), Gwynedd Jones, Maldwyn Jones, Bethan Thomas, Eifion Davies, Iolo Evans, Rita Jones, Gary Thomas, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Ymddiheuriadau: Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Dewi Pritchard, Gwenda Morris.

Cydymdeimlwyd a theulu Huw Antur Edwards, Llanuwchllyn ac wedi cyfrannu gymaint i gymdeithasau lleol a thu hwnt.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Medi 1af 2026) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.

a) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.

b) Problemau parcio pentref Llandderfel.

Roedd y clerc wedi cwrdd a swyddogion y gwasanaeth tan a cynrychiolydd y cwmni bws i gael eu barn am y cynllun i osod llinellau melyn yn y pentref. Trefnwyd i ymweld ar pentref ac i gysylltu a Chyngor Gwynedd i drafod y cynllun ymhellach.

iv) Gohebiaeth

a) Amrywiol.

i) Triathlon Y Bala.

ii) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - Canllaw i Arolwg 2030 o etholaethau'r Senedd.

b) Un Llais Cymru.

i) Rheolau Sefydlog Enghreifftiol 2026 – **cytunwyd i'w mabwysiadu.**

ii) Gweminar i rannu gwybodaeth allweddol am yr adolygiadau ffiniau cymunedol – **cytunodd y cadeirydd a'r clerc i'w fynychu.**

iii) Weminar gwybodaeth ar sut i helpu cymunedau i ffynnu drwy weithgaredd corfforol.

v) Ceisiadau Cynllunio

i) C26/0563/04/CR - Cais ol-weithredol i wneud addasiadau mewnol ac allanol i cyn-stabal i ddefnydd gampfa a chyfleuster lles. Pale Hall Hotel, Llandderfel.

ii) C26/0562/04/LL - Cais ol-weithredol i newid defnydd cyn stabl yn ddefnydd gampfa a chyfleuster lles yn gysylltiedig a'r gwesty. Pale Hall Hotel, Llandderfel.

iii) C26/0583/04/LL - Newid defnydd caeau amaethyddol i greu ardal ymarfer corff i gwn sydd yn gaeedig. Crynierth Bach, Cefn Ddwysarn,

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o wrthwynebiad lleoli i'r cynlluniau. Roedd yn anodd barnu os oedd perchnogion Pale wedi dinistrio nodweddai hanesyddol gan nad oedd lluniau o'r adeilad cyn gwneud y gwaith. Gyda chais Crynierth Bach nodwyd fod angen sicrhau fod y ffensys terfyn yn ddigonol i sicrhau nad oedd unrhyw gi yn denig i'r ffordd.

iv) DNS CAS-03527-H7Y5R9 – Fferm Wynt Foel Fach – hysbysiad fod cais wedi ei gyflwyno i PEDW.

vi) Materion Ariannol

a) Archwiliad Allanol 2025-26.

Derbyniwyd yr Adroddiad yn nôl gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir a bod dim materion yn achosi pryder iddynt. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y manau perthnasol.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau Gorff – Medi).

Cymeradwywyd.

c) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - Cyhoeddiad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydabyddiaeth Ariannol 2026–27.

ch) Trefniadau bancio.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ychwanegu enw Eifion Davies i awdurdodi taliadau arlein hefyd.

d) Taliadau.

Cytunwyd i dalu:-

i) Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi)

ii) TWE

iii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)

vii) Materion lleol.

a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Tachwedd 3ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.